Prifysgol Bangor

# COFNODION Y CYNGOR

Mewn cyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd yn y Brifysgol ddydd Gwener, 24 Ebrill 2020.

**Presennol**:
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Mr Mark Barrow, Dr Tomos Dafydd, Yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Andrew Edwards, Dr Peter Higson, Dr Griff Jones, Dr Karen Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Miss Lleucu Myrddin, Ms. Ellen Parry-Williams, Miss Julie Perkins, Dr Ian Rees, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro David Thomas, Yr Athro Carol Tully, Yr Athro Oliver Turnbull, Mr Tudur Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Eiddo a Champws, y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

## 19.80 CYFARWYDDIADAU'R CYFARFOD

Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf i'w gynnal yn rhithiol, ac er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn mynd rhagddo yn esmwyth dywedodd wrth yr aelodau bod yr agenda wedi'i rhannu'n dri maes a oedd yn cynnwys materion i'w trafod, eu cymeradwyo ac er gwybodaeth. Cadarnhawyd nad oedd y Siarter cyfredol na'r Statudau yn gwahardd cynnal cyfarfod o'r Cyngor yn rhithiol.

## 19.81 MARWOLAETHAU

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau’r canlynol yn ddiweddar:

**Alwen Eleri Hughes**, cyn aelod o staff yn Swyddfa'r Neuaddau

**Martin Mortimer**, Cymrawd Ymchwil Ôl-ddoethurol

**John Stevenson**, Cymrawd Ymchwil er Anrhydedd yn yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas

**Dilys Brewer**, Myfyriwr, Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin

Bu'r aelodau yn dawel er cof amdanynt.

## 19.82 LLONGYFARCHIADAU

A. Ar dderbyn Cadair Bersonol:

**Nia Whiteley**, Ysgol Gwyddorau Naturiol

**Peter Shapely**, Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas

**Zoe Skoulding**, Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth

**Thora Tenbrink**, Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth

**Helena Miguelez-Carballeira**, Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth

**Simon Neill**, Ysgol Gwyddorau'r Eigion

**Mattias Green** Ysgol Gwyddorau'r Eigion

**Paul Mullins**, Yr Ysgol Seicoleg

B. Ar dderbyn swydd Darllenydd:

**Caroline Bowman**, Ysgol Seicoleg

**Yeung Djern Lenn**, Ysgol Gwyddorau'r Eigion

**Simon Middleburgh**, Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig

C. Nododd y Cadeirydd hefyd fod y Brifysgol yn safle 68 allan o 766 o brifysgolion ledled y byd, am ei gwaith tuag at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn gyflawniad a chydnabyddiaeth bwysig i'r brifysgol sy'n gweithio tuag at fod yn 'Brifysgol Gynaliadwy'. Hefyd, mae'r Brifysgol yn y seithfed safle ledled y byd, am Dreuliant a Chynhyrchu Cyfrifol (Nodau Datblygu Cynaliadwy 12), yn safle 23 ar gyfer Nodau Datblygu Cynaliadwy 17 (Partneriaethau ar gyfer y Nodau) a'r unig sefydliad o Gymru a restrir. Nodwyd bod y brifysgol yn y degfed safle drwy'r byd am ei hymrwymiad i gynaliadwyedd yn ôl tabl cynghrair rhyngwladol arall o sefydliadau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

## 19.83 DATGANIADAU BUDD

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Datganodd yr aelodau canlynol fudd:

Yr Athro Andrew Edwards a Dr Llion Jones mewn perthynas â chofnod 19.86.

## 19.84 COFNODION

A. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2020.

B. Gan gyfeirio at:

[1] **Materion Ystadau** (Cofnod 19.55 [1]); rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar y cynnydd a wnaed gyda'r

Strategaeth Ystadau ond nodwyd bod y pandemig Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd, gan fod gwaith yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar sefydlu'r ysbyty dros dro yng Nghanolfan Brailsford - Ysbyty Enfys Bangor. Cynhaliwyd arolwg cyflwr chwe agwedd peilot llwyddiannus ar gampws Wrecsam, a chwblhawyd adolygiad mewnol. Cafwyd cadarnhad hefyd gan syrfewyr y gall gwaith ddechrau ar yr arolwg a drefnwyd o brif adeiladau'r campws ar 11Mai yn amodol ar liniaru'r cyfyngiadau symud. Nododd y Cyngor gyda gwerthfawrogiad bod nifer o staff y Gwasanaethau Eiddo a Champws a'r Gwasanaethau Masnachol yn gweithio ar y campws ar hyn o bryd i sicrhau bod y staff a'r myfyrwyr sy'n dal ar y safle, ac ystâd y brifysgol yn parhau i fod yn ddiogel.

[2] **Recriwtio Myfyrwyr** (Cofnod 19.56); Rhoddodd yr Athro Andrew Edwards y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr. Dywedwyd wrth y Cyngor y bu rhaid canolbwyntio o'r newydd ac ail-lunio strategaethau recriwtio a marchnata'r brifysgol oherwydd Covid-19. Mae'r gwaith a wnaed gan Michael Lavery bron wedi'i gwblhau, gyda hyfforddiant staff wedi'i dargedu yn cael ei gynnig o bell i staff marchnata a recriwtio. Mae'r gwaith gydag UCAS Media yn parhau ond nodwyd bod UCAS Media wedi rhoi tua 20% o'u staff ar y cynllun ffyrlo felly roedd eu gallu i fwrw ymlaen gyda materion yn is na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae'r brifysgol yn parhau i weithio'n agos gydag UCAS Media ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol. Mae rhai arwyddion cadarnhaol bod y gwaith yn talu ar ei ganfed gyda chynnydd mewn ceisiadau myfyrwyr yn cael eu nodi, yn arbennig yn y Gwyddorau Biolegol a Gwyddorau Cymdeithas Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i baratoi diwrnodau agored rhithiol ar gyfer darpar ymgeiswyr gyda staff yr Ysgolion a'r Gwasanaethau Proffesiynol yn darparu cynnwys fideo. Roedd y sefyllfa mewn perthynas â Medi 2020 yn parhau i fod yn ansicr, a nodwyd bod y Pwyllgor Gweithredu yn parhau i weithio ar gynllunio senarios ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

[3] ***MATERION WEDI'U CADW YN ÔL***

[4] **Arolwg Staff**; Adroddodd yr Athro Andrew Edwards bod yr Arolwg Staff wedi'i gwblhau, ac roedd grŵp yn edrych ar y canlyniadau ar hyn o bryd. Gohiriwyd lledaenu'r adroddiad ond y bwriad oedd ei anfon at yr holl staff yn fuan, gydag e-bost eglurhaol oddi wrth yr Is-ganghellor. Nodwyd sawl tuedd gadarnhaol o'r ymatebion, ond roedd nifer o feysydd hefyd a oedd angen gwaith a thrafodaeth pellach. Gobeithir cynnal grwpiau ffocws ac adborth rhithiol yn fuan, a bydd canlyniadau'r arolwg hefyd yn cael eu bwydo i'r strategaeth iechyd a lles sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

C. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor y cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

## 19.85 MATERION YR IS-GANGHELLOR

A. Adroddodd yr Is-ganghellor ar yr heriau strategol i'r brifysgol yn ystod ac ar ôl y pandemig Covid-19.

Nododd yr Is-ganghellor yr amgylchiadau eithriadol presennol i'r brifysgol, a'r heriau yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gall y sector addysg uwch fod yn un o'r rhai yr effeithir arno fwyaf gan y pandemig Covid-19 presennol, a bod hyn yn arbennig o wir yng Nghymru lle mae economïau lleol yn llawer mwy dibynnol ar y sector.

Mae'r brifysgol yn symud o sefyllfa rheoli argyfwng i un lle mae'n rhaid iddi ddechrau cynllunio at y dyfodol. Mae'r Pwyllgor Gweithredu yn arwain ar hyn a nodwyd bod gweithgor bychan o uwch swyddogion yn edrych ar hyn o bryd ar rai o'r heriau mawr sy'n wynebu'r brifysgol a'r sector, ac yn profi rhagdybiaethau o'r dystiolaeth sydd ar gael a chyfleoedd posib i newid. Byddai'r trafodaethau a'r gwaith cynllunio yn sicrhau y gall y brifysgol gyflwyno gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r llywodraeth, wrth ofyn am gymorth ariannol posib ar yr adeg briodol. Roedd yn debygol y byddai'r cyfyngiad presennol ar gynulliadau mawr yn aros tan ymhell i'r hydref, ac felly roedd angen i'r brifysgol gynllunio ar gyfer parhau i ddarparu ar-lein, yn ogystal ag ailddechrau addysgu wyneb yn wyneb. Nid yw'r brifysgol yn gwybod eto beth fydd yr effaith ar recriwtio myfyrwyr ar gyfer Medi 2020 ond mae'r brifysgol yn modelu gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr cartref/UE a gostyngiad mwy sylweddol, o hyd at 50% mewn cofrestriadau myfyrwyr rhyngwladol. O dan y senario hwn, byddai'r gostyngiad canlyniadol mewn cyllid i'r brifysgol yn sylweddol ac ar y gorau byddai oddeutu £15m. Roedd gwaith eisoes yn cael ei wneud i edrych ar Gynllun Cadw Swyddi'r llywodraeth (ffyrlo) a chyfleusterau benthyca bancio a chorfforaethol.

Cadarnhaodd yr Is-ganghellor ei hyder yn y tîm Gweithredu a oedd wedi darparu arweinyddiaeth gref yn ystod yr wythnosau blaenorol ac a fyddai'n arwain ar faterion dros y misoedd nesaf.

B. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod y Cyngor yn cael golwg ddigonol ar faterion, ac yn goruchwylio yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn. Nodwyd bod y cysylltiad rhwng y Pwyllgor Gweithredu a'r Cyngor yn hanfodol ar yr adeg hon, a ***chytunwyd*** y dylai Cadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor gwrdd â'r uwch dîm rheoli yn amlach. Yn ogystal, gellid galw cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor pe bai angen gwneud hyn.

## 19.86 ADOLYGIAD O'R TÎM GWEITHREDU

A. Cyflwynodd yr Is-ganghellor bapur yn amlinellu adolygiad o'r Tîm Gweithredu. Yn arbennig, nodwyd bod themâu cychwynnol a ddaeth allan o'r arolwg staff yn dangos bod effeithiolrwydd y Tîm Gweithredu ac atebolrwydd am weithredoedd unigol ynghyd â thryloywder portffolio yn hanfodol. Roedd y papur yn adlewyrchu'r hyder a oedd gan yr Is-ganghellor yn y Pwyllgor Gweithredu ac yn argymell nifer o newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys newid y Deoniaid cyfredol yn Ddirprwy Is-gangellorion/Penaethiaid Colegau a chreu swyddi Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol i weithio ar themâu trawsbynciol y brifysgol ac apwyntio Deoniaid newydd i gynorthwyo gyda

chyfrifoldebau'r Colegau. ***Cadarnhawyd*** na fydd y newidiadau a argymhellwyd yn arwain at gost ychwanegol.

B. Nodwyd y byddai Dr Kevin Mundy yn dod yn Brif Swyddog Gweithredu/Ysgrifennydd y Brifysgol ac y byddai'n arwain adolygiad o'r Gwasanaethau Proffesiynol i'w cysoni â'r strwythur academaidd. Bydd Dr Mundy yn rhoi diweddariad pellach ar yr adolygiad hwn yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

C. Yn dilyn trafodaeth, nododd y Cyngor y newidiadau i'r Tîm Gweithredu a ***chymeradwyo*** penodi'r canlynol yn Ddirprwy Is-gangellorion / Penaethiaid Colegau, am gyfnod cychwynnol o 4 blynedd:

- Yr Athro Nicky Callow
- Yr Athro Andrew Edwards
- Yr Athro Paul Spencer

Byddai'r penodiadau, ynghyd â'r Deoniaid a'r Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol, yn dod i rym ar 1 Mai 2020.

## 19.87 LLYWODRAETHU

### A. Y Siarter a'r Ordinhadau

[a] Cyflwynodd Ysgrifennydd y Brifysgol y cefndir i'r diwygiadau arfaethedig i Siarter ac Ordinhadau'r Brifysgol a nododd fod y newidiadau wedi'u hargymell yn yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu yn 2019. Mae'r Siarter a'r Statudau cyfredol wedi aros fwy neu lai'n ddigyfnewid ers degawdau a bu'n fwriad i foderneiddio'r Siarter a'r Statudau ers nifer o flynyddoedd. Nodwyd y bu gwaith yn mynd rhagddo ers rhai misoedd i ddrafftio Siarter newydd a fyddai'n moderneiddio prosesau'r brifysgol ac yn ei gwneud yn unol â'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch eraill sydd eisoes wedi dilyn y llwybr hwn. Yn ogystal, adroddwyd bod y Statud XX cyfredol sy'n ymwneud â chwynion, disgyblu a diswyddo staff academaidd yn gwrthdaro â chyfraith cyflogaeth fodern, ac roedd y newidiadau arfaethedig, sydd bellach wedi'u hymgorffori yn y Siarter, wedi diwygio'r fframwaith cyfansoddiadol sy'n llywodraethu materion yn ymwneud â staff academaidd, gan roi i'r holl staff yr hawliau a'r amddiffyniadau y mae'r gyfraith yn eu rhoi ar hyn o bryd ac yn galluogi'r brifysgol i weithredu'n effeithlon.

Oherwydd y cyfyngiadau cyfredol ar gynulliadau mawr, nodwyd na fydd Llys y Brifysgol yn gallu cyfarfod am beth amser, sy'n rhoi fwy o amser i'r brifysgol ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ar gynnwys y Siarter newydd. Bydd y Siarter newydd ar agenda cyfarfod y Senedd ym mis Mai a byddai'n ganolbwynt ymgynghori pellach ag undebau staff cyn dychwelyd i'r Cyngor yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf.

Cyflwynwyd set newydd o Ordinhadau i'r Cyngor hefyd, a thynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith bod Ordinhadau ychwanegol yn cael eu trafod gydag UCU ar hyn o bryd. Nodwyd bod nifer o sylwadau drafftio wedi cael eu derbyn ynglŷn â'r Ordinhadau cyn y cyfarfod.

[b] Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth briodol cytunodd y Cyngor ar sylwedd a chyfeiriad y Siarter, gan nodi y gwahoddwyd sylwadau gan y Senedd a rhanddeiliaid eraill. Yn ogystal, cymeradwywyd Ordinhadau 1-19 a 29 gan y Cyngor, yn amodol ar fân ddiwygiadau drafftio, a ***nodwyd*** y byddai set ychwanegol yn cael ei chyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**B. Adolygiad Camm**

[a] Nododd y Cadeirydd fod Adolygiad Gillian Camm o Lywodraethu ym Mhrifysgolion Cymru, a adroddodd ym mis Rhagfyr 2019, wedi tynnu sylw at nifer o werthoedd llywodraethu allweddol - ymddiriedaeth, atebolrwydd, tryloywder, ymgysylltu, her a chymhwysedd. Yn dilyn hynny, roedd y sector prifysgolion yng Nghymru wedi cyhoeddi dwy ddogfen mewn ymateb i'r Adolygiad:

- Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru, ac
- Ymrwymiad i Weithredu

Roedd y Siarter yn mapio dull o drawsnewid llywodraethu mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac roedd yr Ymrwymiad i Weithredu yn nodi'r ymrwymiadau yr oedd holl bartïon y Siarter wedi ymrwymo iddynt i wneud cynnydd. Rhagwelwyd y byddai'n ofynnol i bob prifysgol yng Nghymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn y maes hwn yn eu hadroddiadau blynyddol i HEFCW, yn hydref 2020.

Nodwyd bod themâu clir yn dod i'r amlwg o'r Adolygiad yr oedd angen i'r Cyngor eu trafod a'u goruchwylio.

[b] Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth briodol gan y Cyngor ***cytunwyd*** mabwysiadu'r Siarter yn ffurfiol, ac ymrwymo i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y ddogfen Ymrwymiad i Weithredu. Nodwyd y byddai dadansoddiad bwlch yn cael ei gynnal ar y camau gweithredu ac y cyflwynir diweddariad yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

**19.88 COVID-19**

**A. Diweddariad**

Rhoddodd yr Is-ganghellor y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar ymateb y brifysgol i'r pandemig Covid-19. Nodwyd yr adroddiad gan y Cyngor, ac yn arbennig y camau a gymerwyd gan Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol mewn perthynas â'r argyfwng. Diolchodd yr Is-ganghellor i holl aelodau'r brifysgol am y ffordd gyflym ac effeithiol y gwnaethant weithredu i alluogi'r brifysgol i barhau i ddysgu ar-lein a darparu

gwasanaethau o bell. Cadarnhaodd aelodau'r Undeb y Myfyrwyr eu bod wedi bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn y brifysgol o'r dechrau, a bod yr ymateb gan fyfyrwyr hyd yma wedi bod yn hynod gadarnhaol. Nodwyd bod Rheoliadau Force Majeure newydd wedi'u drafftio a'u cymeradwyo'n gyflym er mwyn darparu rhwyd ddiogelwch dim anfantais i fyfyrwyr mewn perthynas ag asesiadau.

Mynegodd y Cadeirydd ddiolch o galon i'r Pwyllgor Gweithredu ar ran y Cyngor am effeithiolrwydd eu hymateb i'r Pandemig Covid-19.

**B. Cofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Cyflwynodd Syr Paul Lambert gofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar 3 Ebrill (ynghlwm fel Atodiad I i'r copi swyddogol o'r Cofnodion) a gynullwyd yn benodol i drafod effaith Covid-19 ar y brifysgol a'r goblygiadau ariannol yn y dyfodol. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi derbyn cynllun sawl senario a oedd yn ymdrin yn benodol â'r heriau ariannol i'r brifysgol yn yr hydref, a phwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod y brifysgol yn cynllunio ei ffordd allan o'r argyfwng. Nodwyd heriau cynllunio ar gyfer y dyfodol gyda'r fath ansicrwydd ynglŷn â nifer y myfyrwyr. Roedd trafodaethau yn parhau rhwng prifysgolion perthnasol ac EIB. Bydd trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gyda Santander ynghylch Cyfleuster Credyd Cylchol y brifysgol. Yn dilyn trafodaeth, nodwyd cofnodion y Grŵp Cyllid ac Adnoddau.

**C. Ymchwil**

Mae Grŵp Ymchwil Covid-19 y brifysgol yn dal i gwrdd yn rheolaidd, ac mae prif ymchwilwyr yn cynnal asesiadau risg ar gyfer eu hymchwil. Roedd y rhain yn cael eu hystyried a'u graddio ar system goleuadau traffig. Nodwyd mai ychydig iawn o brojectau a raddiwyd yn goch hyd yma, lle byddai effaith y cyfyngiadau symud cyfredol yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y project at y dyfodol.

## 19.89 PWYLLGOR MOESEG

A. Cyflwynodd Dr Peter Higson y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Moeseg a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019 (ynghlwm fel Atodiad II i'r copi swyddogol o'r Cofnodion).

B. Cymeradwyodd ***y Cyngor*** Adroddiad Blynyddol y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol ar gyfer 2018/19, sydd wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 i Gofnodion y Pwyllgor Moeseg.

## 19.90 CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB STRATEGOL

A. Cyflwynodd yr Athro Carol Tully a Mrs Tracy Hibbert y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024. Nodwyd bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn nodi'r dull y bydd Prifysgol Bangor yn ei ddefnyddio i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn disgrifio

cyfraniad y brifysgol fel cyflogwr a darparwr addysg uwch at gefnogi a hyrwyddo cyfle cyfartal.

B. Cymeradwyodd ***y Cyngor*** y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024.

**19.91 ADRODDIAD AR Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU**

Nododd ***y Cyngor*** yr Adroddiad Bwlch Cyflog Cyffredinol 2019 y mae'r brifysgol yn ei gyhoeddi'n wirfoddol bob blwyddyn.

**19.92 ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDU**

Derbyniwyd yr Adroddiad ar gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu a gynhaliwyd rhwng Chwefror 2020 ac Ebrill 2020 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

**19.93 ADRODDIAD O'R SENEDD**

Cyflwynodd yr Is-ganghellor yr adroddiad ar gyfarfod y Senedd a gynhaliwyd 3 Mawrth 2020.

**19.94 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRWYR**

Nododd y Cyngor adroddiad gan Undeb y Myfyrwyr ar eu gweithgareddau, eu hymgyrchoedd a'u digwyddiadau diweddar.

**19.95 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

Nodwyd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol Chwarterol, a'r adroddiad ar nifer y myfyrwyr a nifer y ceisiadau.

**19.96 ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU**

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a gynhaliwyd 3 Chwefror 2020 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

**19.97 ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG**

Cymeradwywyd adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2020 (ynghlwm fel Atodiad V i gopi swyddogol y Cofnodion). Nodwyd cwpl o adroddiadau archwilio ymgynghorol, a chadarnhawyd bod y materion a godwyd yn yr adroddiadau wedi cael eu gweithredu.

**19.97 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd 11 Mawrth 2020 (ynghlwm fel Atodiad VI i gopi swyddogol y cofnodion).

**19.98 ADRODDIAD O'R PWYLLGOR DISWYDDIADAU**

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a gynhaliwyd 20 Mawrth 2020 (ynghlwm fel Atodiad VII i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

## 19.99 MATERION ADNODDAU DYNOL

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol a ***nodwyd*** y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a'r wybodaeth am yr Arolwg Staff.

B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

## 19.100 FFARWELIO

Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Cyngor i'r Athro Tully ac, ar ran yr aelodau, diolchodd i'r Athro Tully am ei chyfraniad sylweddol i waith y Pwyllgor Gweithredu, y Cyngor, a'r Brifysgol ar lefel uwch am nifer o flynyddoedd.

Nododd y Cadeirydd hefyd mai hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Cyngor i Mark Barrow a Lleucu Myrddin a diolchodd i Mark a Lleucu am eu cyfraniad i'r Cyngor, i'r Brifysgol ac i Undeb y Myfyrwyr. Dymunodd y Cyngor yn dda i'r ddau ohonynt ar gyfer y dyfodol.